caloncricieth

Ebrill 2010
Rhifyn 3

Cariad Ryngwladol

Pan wynebodd Cymru Ffrainc yng Nghaerdydd ychydig wythnosau yn ôl roedd o leia un cartref yng Nghricieth oedd wedi rhannu'n ddau.

Mae Glyn a Veronique Thomas yn uno'r ddau genedl o dan yr un tô. Daw Glyn yn wreiddiol o Dolgellau, tra bod Veronique yn enedigol o ardal o Paris.

Er bod Glyn a Vero wedi profi magwraeth wahanol iawn, roedd un peth bwysig iawn ganddyn nhw yn gyffredin pan ddaethon nhw i nabod ei gilydd gyntaf. Yn blant yn eu harddegau fe ddaeth y ddau yn ddilynwyr Iesu Grist. "Fe ddes i'n Gristion pan oeddwn i'n un-deg-chwech oed" meddai Veronique, "a hynny ar ôl gweld newid ddramatig ym mywyd mam pan ddaeth hi'n Gristion ei hun. Roedd mam yn brwydro alcoholiaeth ac iselder ysbryd ond un diwrnod fe wnaeth hi amser i ddarllen copi o Efengyl Ioan."

Newidiodd pethau'n llwyr pan sylweddolodd ei mam ei bod angen presenoldeb Iesu yn ei bywyd. "Daeth yr iselder ysbryd i ben a bellach doedd yr alcohol dim yn ei rheoli – fe gafodd hi ryddid oddi wrthyn nhw gan Dduw. Newidiodd ei ffordd hi o siarad hefyd. Rwan roedd geiriau cariad, maddeuant a gobaith yn ran mawr o fywyd mam. Nid bod hynny wedi digwydd dros nos, ond fe gafodd realiti Duw ym mywyd mam effaith drawiadol arnom ni fel teulu."

Roedd Glyn yn bymtheg oed pan ddaeth Iesu'n waredwr arno. "Dw i'n cofio cael fy herio am le faswn i'n mynd taswn i'n marw," meddai Glyn, "ac roeddwn i'n gwybod mai'r unig ffordd allwn i fod yn siwr o fynd i'r nefoedd oedd os oeddwn yn ymddiried fy mywyd i Iesu."

Ar y moroedd y dechreuodd berthynas y pâr, tra roedden nhw'n gweithio ar long o'r enw Logos II. Mae'n perthyn i elusen o'r enw Operation Mobilisation ac yn un o sawl llong sy'n teithio'r byd yn cynnig gofal iechyd am ddim, cymorth ymarferol a chariad Gristnogol i bobl rhai o wledydd tlota'r byd.

Roedd Glyn wedi hyfforddi fel saer ac fe gafodd gyfleodd dibendraw i ddefnyddio'i sgiliau ar fwrdd Logos II. Roedd Veronique wedi cael profiad o weithio gyda phlant ac roedd digon o alw am hynny hefyd.

Daeth y ddau gant o bobl oedd yn gweithio ar y llong o lawer o wahanol wledydd, ond roedden nhw'n rhannu un peth hollbwysig sef perthynas byw gyda Duw trwy ei fab Iesu Grist.

Fe dreuliodd Glyn and Vero dair blynedd ar fwrdd Logos II, gan ymweld â thri-deg pump o wahanol wledydd o Ewrop i Asia ac o Ynysoedd y Caribi i Ogledd a De America.

"Rydw i mor ddiolchgar i Dduw am gyfle mor wych i gwrdd â chymaint o bobl gwahanol yn eu gwlad eu hunain a dod i ddeall rhywbeth o'u diwylliant a'u ffordd o feddwl", meddi Veronique. "Roedd fy amser ar fwrdd y llong yn fwy na faswn i erioed wedi disgwyl. Roedd yn ryfeddod iweld pobl o ugain cenedl wahanol yn dangos maddeuant, cariad a gostyngeiddrwydd oherwydd yr hyn roedd Iesu wedi ei wneud yn ein bywydau." Ychwanega Glyn, "Fe gafodd ein llygaid eu hagor i weld yr angen fawr o amgylch y byd am gymorth ymarferol, ond hefyd yr angen i bobl ddod i adnabod Duw a chael perthynas gyda fo. Ges i'r cyfle i rannu'r newyddion da mewn carchardai, mewn ysgolion, mewn cartrefi plant a hen bobl.

"Ar un achlysur daeth cais i ni helpu adeiladu popty bara i gymuned dlawd iawn yn Nicaragua. Doedd dim syniad gen i le i ddechrau ond mi wnaethom ni fachu'r cyfle a gyda chymorth y bobl leol fe lwyddom ni. Roedd peth wmbreth o hwyl i gael ar yr un pryd, fel y gallwch chi ddychmygu!"

Yn 2004 fe briodod Glyn a Vero a symud i fyw i Borthmadog. I Veronique yn arbennig roedd yn od bod nôl ar dir sych a hefyd mewn lle newydd, ond fe ymartrefodd yn hawdd iawn a gwneud ffrindiau.

"Roedd dod i Ogledd Cymru'n her newydd a phennod arall yn fy mywyd. Ddaru hi ddim cymryd yn hir i mi deimlo'n gartrefol am fod y lle yn hyfryd a'r bobl yn gyfeillgar. I mi 'adref' ydy lle mae Glyn a finnau gyda'n gilydd."

Fe drodd bywyd yn brysurach o lawer ym mis Ionawr 2008 pan gafodd Jack ei eni, ac yn gynharach eleni fe symudodd y teulu Thomas o Bort i Gricieth lle maen nhw rwan yn aelodau o'r Eglwys Deuluol.Wrth edrych yn ôl dros y blynyddoedd o ddilyn Iesu Grist mae Glyn a Veronique wedi wynebu digon o heriau ar y ffordd. Nhw fyddai'r cyntaf i gyfaddef eu bod wedi gwneud camgymeriadau

a heb gyrraedd eu safon eu hunain, heb sôn am un Duw.

Ond gallen nhw weld trwy bopeth bod Duw wedi aros yn gyson ac yn ffyddlon, ac yn barod i faddau bob tro. Ei garedigrwydd, neu ei ras tuag atyn nhw sy'n eu llenwi gyda diolchgarwch.

Meddai Vero, "Mae dau adnod yn y Testament Newydd sy'n disgrifio yn union beth mae Duw wedi gwneud i ni, 'Haelioni Duw ydy'r unig beth sy'n eich achub chi wrth i chi gredu. Dych chi wedi gwneud

dim i haeddu'r peth. Anrheg Duw ydy e! Dych chi'n gallu gwneud dim i'w ennill, felly does dim lle i unrhyw un frolio.'"

Os ydych chi am ddarllen rhagor am waith llongau OM, cerwch at: www.omships.org

YN Y RHIFYN YMA O caloncricieth

Canser a gweddi

Profiad un wraig o sut mae grym gweddi wedi ei chario trwy gyfnod mwyaf tywyll ei bywyd.

Yn y darlun

I ba raddau mae ffotograffydd yn mynd i dynnu'r llun perffaith? Fe glywn ni gan arbennigwr lleol.

Llais y bugail

Mae'r tymor wyna wedi dod unwaith eto. Ond pa wersi sydd gan y defaid i'w dysgu?

HEFYD...Llyfr AM DDIM i bob darllenwr!



Trowch i Dudalen 3 am ragor o wybodaeth ar sut i hawlio'ch copi

Crwydro'r Copaon

Fel arfer byddai'n cysgu'n drwm am 3 o'r gloch y bore, ond heddiw mae'r awyr oer a'r esgyniad serth wedi ei ddeffro'n llwyr.

Daw pwll o oleuni o'i torch ar ei ben wrth iddo symud yn bwyllog i fyny'r mynydd, ei esgidiau'n crenshio'n dawel ar yr eira rhewllyd.

Wrth iddo nesau at y copa mae'r gwrid coch ar y gorwel yn cryfhau, ac mae'n cyflymu ei gam rhag iddo golli'r un foment o'r amser arbennig yma. Ar y copa mnae'r ffotograffydd yn llwytho'i gamra ar y treipod fetal oer, yn edrych am y ffyrdd gorau o gofnodi'r olygfa odidog o'i flaen.

Mae arliwiau porffor a choch y wawr yn troi'n sydyn i oren a melyn ac mae'r haul yn ffrwydro i'r golwg. Mae'n pelydru oddi ar yr eira ac yn goleuo bob copa ac uchelbwynt. Dim ond am ychydig funudau mae'r golau arbennig yma'n para ac mae'r ffotograffydd yn symud o gwmpas gyda bwriad, yn ceisio dal ar ffilm cymaint ag sydd bosib er mwyn gallu rhannu'r munudau yma gydag eraill. Mae'n eistedd yn yr eira, yn chwarae nôl yn ei feddwl yr hyn mae newydd ei weld – mae Goleuni'r Byd newydd roi diwrnod newydd sbon i ni.

Bu Dave Newbould yn fynyddwr brwd ers ei blentyndod ac fe gododd gamra am y tro cyntaf er mwyn cadw cofnod o'i amser yn y mynyddoedd. Yna, un diwrnod, bron i dri-deg mlynedd yn ôl daeth Dave i ddeall bod Iesu Grist wedi marw a dioddef er ei fwyn o, ac o'r foment yna fe newidiodd ei fywyd yn llwyr.

Mae Dave yn dal i fod wrth ei fodd yn treulio amser yn y mynyddoedd ond erbyn hyn nid yw'n gwneud hynny am resymau

hunanol yn unig. Am un-ar-ddeg mlynedd fe ddysgodd mewn canolfan gweithgareddau awyr agored Gristnogol, gan rannu ei gariad i Dduw a'r mynyddoedd gyda grwpiau o bobol ifanc. Yna yn 1993 fe ddechreuodd gynhyrchu cerdiau a chalendrau sy'n cael eu gweld ar draws Cymru.

Meddai Dave, "Dydw i erioed wedi astudio ffotograffiaeth ond mae'n debyg bod gen i ryw fath o ddawn naturiol. Dw i'n credu bod yr Arglwydd Iesu am i mi ei ddefnyddio nid yn unig i fwydo fy nheulu ond er mwyn rhannu gydag eraill rhywbeth o'r harddwch rhyfeddol a greodd yn arbennig i ni."

Diolch i'w waith mae Dave yn teithio i rai o lefydd mwyaf gwyllt a diarffordd Cymru ar adegau o'r dydd a'r nos na fyddai'r rhan fwyaf ohonom yn gweld heblaw mewn lluniau. "Rydw i wedi darganfod bod yr Arglwydd yn gallu siarad yn rymus ac yn uniongyrchol â phobl drwy ffotograff," eglura Dave, "a'i bod yn bosib i wahanol bobol dderbyn neges wahanol a chwbl bersonol o'r un llun."



Mae dewis helaeth o gardiau a lluniau Dave i'w gweld yn Siop Lyfrau Roots, 46 Stryd Fawr

Dysgu o'r Defaid

Mae'n adeg brysur i ffermwyr defaid ar draws Ben Llyn. Mae gan Andrew a Christine Hinton dyddyn yn Llannor. Dyma'u teimladau ar eu hail tymor wyna.

Wrth i ni ysgrifennu hyn mae'r wyna wedi dechrau ac unwaith eto rydyn ni'n mwynhau'r wyrth o fywyd newydd. Mae'r gwaith cynllunio, bwydo a gofalu dros y deuddeg mis diwethaf wedi dod i ben ac yn y cyfnod byr yma fe fydd maint ein praidd fwy neu lai

yn treblu. Mae ein defaid ni i weld yn hoffi rhoi genedigaeth unai am 11pm neu 2.30 y bore. Pa bynnag un, mae'n rhoi cyfnod hir i ni heb gwsg go iawn, rhywbeth y gall ffermwyr eraill – a rhieni plant bach – gydymdeimlo â hi!

Fel cychwynnwyr di-brofiad, doedd dim syniad gennym ddeunaw mis yn ôl faint o waith caled fyddai edrych ar ôl defaid. Ers i ni brynu ein defaid cyntaf o farchnad Gaerwen rydyn ni wedi bod yn ddiolchgar iawn am gymorth, caredigrwydd ac arweiniad rhai o'n ffermwyr lleol. Ac yn ystod y cyfnod yna rydym

wedi cael agoriad llygad i faint o ofal sydd angen ar ddefaid er mwyn iddyn nhw ffynnu.

Mae gan y Beibl lawer i ddweud am ddefaid a bugeiliaid. Mae'r darluniau mae'n defnyddio wedi dod yn fwy real i ni a thrwy profiad rydyn ni wedi dod i'w deall yn well. Un darlun saydd wedi ein taro'n arbennig yr adeg yma o'r flwyddyn ydy'r enw sy'n cael ei roi i'r Arglwydd Iesu Grist o 'Oen Duw', sy'n cyfeirio at y ffaith ei fod wedi ei roi gan Dduw i farw fel aberth i'n pechodau.

Rydyn ni'n llawenhau wrth i bob oen newydd ddod i'r byd, ac yn rhyfeddu at yr egni barhaol mae pob oen yn ei fwynhau! Rydyn ni hefyd yn galaru dros yr ŵyn bach rydyn ni'n eu colli. Mae'r tymor yma yn ein hatgoffa am y rhyfeddod fwy fyth bod Duw wedi ein caru gymaint nes rhoi ei unig fab i farw fel aberth ar y groes adeg y Pasg cyntaf un. Nawr, dyna wyrth!

ANRHEG Y PASG!

LLYFR AM DDIM i bob darllenwr

Mae hygrededd Cristnogaeth wedi ei seilio ar un cwestiwn syml. A ddaeth Iesu Grist yn ôl yn fyw ychydig ddyddiau ar ôl iddo farw a chael ei gladdu? Mae John Blanchard yn edrych ar y tystiolaeth, yn archwilio'r theoriau gynllwynio ac yn dangos pam bod dim ond un ateb argyhoeddiadol i'r cwestiwn. **I hawlio eich copi chi am ddim, dewch â'r papur yma i mewn i Siop Lyfrau Roots, 46 Stryd Fawr. Cyfyngir i un llyfr i bob teulu.**



Dathlu degawd...

Eleni mae deng mlynedd ers i eglwys newydd ddechrau cwrdd yng Nghricieth. Mae Calon Cricieth yn bwrw golwg ar ddarn bach o hanes.

Fe ddechreuodd y cyfan yn ôl ym mis Medi 1999 pan ddaeth dwy fam lleol at Andrew ac Alison Bradley, arweinwyr Clwb Gwyliau Cricieth (CSSM yn wreidddiol) ghyda chwestiwn. A fuasai'n bosib cynnal oedfa fore Sul oedd yn debyg mewn naws i'r gwasanaethau yn ystod y Clwb Gwyliau?

Roedd y syniad yn un gyffrous, ac wedi ceisio cynnal rhywbeth gydag eglwysi eraill y dref, daeth y penderfyniad i ddechrau oedfa deuluol misol. Yr hen 'Church Rooms', a oedd bellach yn perthyn i'r Clwb Gwyliau, oedd y lleoliad amlwg, ac fe gynhaliwyd tair oedfa rhwng Hydref a Rhagfyr.

Wedi dechreuad calonogol cyn y Nadolig, ym mis Ionawr 2000 fe ddaeth yr oedfaon yn bythefnosol. Roedd Ros Williams yn un o'r mamau gwreiddiol ac mae'n cofio'r dyddiau cynnar yn dda. "Roeddwn i'n falch o rywle i fynd â'r plant," meddai, "rhywle lle doedd dim ots os oedden nhw ychydig yn swnllyd, a lle roeddwn i'n gallu dysgu mwy am Iesu."

Erbyn 2003 rwan bod y grwp bach yn cyfarfod yn rheolaidd fe benderfynon nhw ymroi i'w gilydd yn ffurfiol, ac fe aned Eglwys Deuluol Cricieth.

Ychydig dros ddwy flynedd yn ddiweddarach gadawodd rhai o aelodau'r eglwys i sefydlu grwp newydd – Goleudy – gyda naws wahanol, gan agor y ffordd i ddatblygiad newydd arall ym mywyd yr Egwlys Deuluol.

Wedi gweddi dwys a thrafod hir fe deimlodd yr eglwys ei fod yn iawn i

edrych am weinidog llawn amser i weithio gydag EDC a'r gymuned. Bron i dair mlynedd union ar ôl gwneud y penderfyniad yna, fe groesawyd Ben Thomas i'r eglwys.

Mae hi bellach ychydig dros ddeunaw mis ers i Ben a Bethan a'r plant ddod yn ran o'r teulu yn EDC. Gan weithio gyda'n gilydd ein nod ydy dangos cariad Duw i'r dref a'r fro ehangach. Duw ei hun sy'n dod ag eglwysi i fodolaeth a fo sy'n gwneud iddyn nhw dyfu. Gyda deng mlynedd gyffrous y tu ôl i ni, rydyn ni'n edrych iddo fo i wneud pethau mawr yn ein plith yn y blynyddoedd i ddod.

Esbonio'r enw

Mae'r enw 'Eglwys Deuluol Cricieth' yn un sy'n egluro rhywbeth o'r hyn ydyn ni.

Dydy eglwys Iesu Grist ddim yn glwb gaeedig ond yn hytrach yn deulu cynnes, croesawgar. Mae'n cynnwys pobl o bob oed – o fabis i bensiynwyr – ac yn union fel unrhyw deulu mae wedi ei seilio ar berthynas glos. Mae aelodau Eglwys Deuluol Cricieth yn perthyn i'w gilydd am eu bod wedi dod i adnabod Duw fel eu tad nefol. Maen nhw hefyd yn frodyr a chwiorydd drwy eu ffydd bywiol yn Iesu Grist.

Mae yna groeso i unrhyw un sydd am ymuno yn oedfa addoli EDC ar fore Sul. Mae'r naws yn anffurfiol, felly does dim angen gwisgo fyny, ac mae'r gerddoriaeth yn gyfuniad o ganeuon modern ac emynau mwy traddodiadol. Canolbwynt ein hamser gyda'n gilydd ydy'r bregeth, pan fydd neges y Beibl yn cael ei esbonio mewn ffordd hawdd i'w ddeall a heriol.

Ac am ein bod yn eglwys deuluol gall bobl o bob oed a chefndir

deimlo'n gartrefol gyda ni. Mae Eglwys y Plant yn cael ei chynnal yn ystod yr oedfa i blant o dan 7 oed, ac mae dysgeidiaeth o'r Beibl i blant yn eu harddegau yn Eglwys yr Ifanc. Mae'r rhai bach yn cael gofal yn ein creche fel y gallech chi ganolbwyntio ar fod yn ran o'r oedfa.

Efallai nad ydych wedi bod i eglwys neu gapel ers blynyddoedd lawer, neu efallai erioed. Beth am ddod atom ni i Eglwys Deuluol Cricieth a theimlo'n rhan o deulu. Yn bwysicach fyth, dewch i glywed am y Duw anfonodd ei fab er mwyn i chi ddod i'w adnabod fel eich tad.

Beth ydy eglwys?

Dyma gwestiwn i chi, beth yn union ydy eglwys? Ydy o'n (a) adeilad, (b) sefydliad, neu (c) grwp o bobl? Ateb y Beibl ydy nad adilead neu fudiad ydy'r eglwys ond teulu o bobl. Mae eglwys Duw wedi ei ffurfio o bobl o bob math o gefndir, gwlad a iaith. Mae ganddyn nhw un oeth yn gyffredin a hynny yw eu bod wedi rhoi eu ffydd yn Iesu Grist. Nid rhywbeth wedi ei sefydlu a'i drefnu gan bobl ydy'r gwir eglwys, mae'n perthyn i Iesu – ei eiddo o ydy'r eglwys. Mae'r Beibl yn disgrifio hyn mewn iaith priodas. Iesu Grist ydy'r briodfab a'r bobl rhoddodd ei fywyd i'w hachub yw ei briodferch. Oherwydd hynny, perthyn i'r eglwys ydy'r fraint mwyaf yn y byd!

Hawl i holi

Os hoffech sgwrsio am unrhyw beth rydych wedi ei ddarllen yn Calon Cricieth, neu os oes gennych gwestiynau am Dduw a materion ffydd buaswn yn hapus iawn i ddod i'ch gweld. Fel eglwys rydym eisoes yn ymweld yn gyson â nifer o bobl yn yr ardal. Os hoffech ymweliad breifat neu sgwrs ffoniwch ein gweinidog Ben yn swyddfa'r eglwys ar 522794, neu gadewch nodyn yn siop lyfrau Roots.

Gwahoddiad y Pasg

Fe'ch gwahoddir i ymuno â ni yn ein gwasanaethau a'n dathliadau o'r Pasg. Cynhelir pob cyfarfod yn Neuadd y Clwb Gwyliau, oni nodir yn wahanol.

Nos Iau, Ebrill 1af
7.30pm
Gwasanaeth Cymundeb
Amser o dawelwch i fyfyrio ar ystyr marwolaeth Iesu Grist

Gwener y Groglith
10.30am
Oedfa Addoli i'r Teulu
Dewch i gael eich atgoffa o rodd amhrisiadwy Duw o'i fab er mwyn ein hachub
Gwener y Groglith
11.45am
Caneuon y Pasg ar y Maes
Hanner awr o addoliad awyr agored gyda lluniaeth ysgafn

Bore Sul y Pasg
10.30am
Dathlu Dydd yr Atgyfodiad
Dewch i glywed sut mae atgyfodiad Iesu yn dod â bywyd newydd
Nos Sul y Pasg
7pm
Nerth y Groes
Noson o ganu, drama a neges ryfeddol y groes

Wynebu canser ‘ar glustog o weddi’

“Mae gen i ofn bod canser arnoch chi.” Geiriau byddai pob un ohonom yn dychryn i’w clywed. Ond dyna’r newyddion gafodd Doreen Iliffe yn Ysbyty Gwynedd ym mis Mehefin llynedd.

Roedd Doreen, sy’n byw ym Mhenrhyndeudraeth gyda David ei gwr, wedi amau bod rhywbeth o’i le ers chwe mis. Gohiriodd fynd at y doctor oherwydd prysurdeb bywyd a phwysau yn y teulu.

Pan wnaeth hi’r apwyntiad o’r diwedd fe rybuddiodd y doctor y gall ei phroblemau fod yn arwyddion o ganser y perfedd. Fe ddangosodd colonoscopy bod yr ofnau’n gywir ac fe gafodd Doreen ddyddiad bythefnos yn ddiweddarach i gael tynnu trydedd ran o’i choluddyn.

Mae Doreen, oedd yn nyrs am ugain mlynedd, yn swnio’n ddigon ddi-ffwdan wrth drafod y peth heddiw. “Mi wnes i fwrw iddi,” meddai, “Ar ddiwrnod y driniaeth dsoedd y nyrs gymrodd fy mhwysau gwaed a’m pyls yn methu credu eu bod yn normal.”

“Roeddwn i’n teimlo’n dawel iawn wrth fynd i mewn i’r driniaeth am fy mod i’n gwybod bod Duw gyda fi.”

Fe dynnodd y llawfeddyg lwmpyn maint oren ond fe ddangosodd profion bod y canser wedi lledu i’r nodau lymff.

Fe wellodd Doreen o’r llawdriniaeth mewn cyfnod anarferol o gyflym. Fe gafodd hi fynd adref ar ôl chwe diwrnod yn lle pythefnos ac roedd hi’n cryfhau bod dydd.

Mae hi’n credu’n gryf mai oherwydd gweddi roedd hynny. “Rydyn ni’n gwybod am bobol yn America, Canada, Israel yr Almaen, Ffrainc ac Israel oedd yn gweddïo amdanom ni, yn ogystal â ffrindiau ledled Prydain. Mae fel taswn i wedi fy nghario trwy hyn i gyd ar glustog o weddi.”

Y cam nesaf i Doreen oedd wyth dôs o cemotherapi trwy linell i mewn i’w braich. Does dim amheuaeth ganddi mai dyma oedd y rhan gwaethaf un o dioddef gyda chanser.

“Roedd y sgil effeithiau yn ofnadwy: ceg dolurus tu hwnt gydag wlserau ar fy mochau, cig fy nannedd a fy nhafod, dwylo poenus iawn a hefyd cyfog barhaol a weithiau chwydu. Roeddwn i’n teimlo mor sâl. Ar ôl yr ail ddôs wnes i ofyn i fi fy hun a oeddwn i’n mynd i ddod trwy hyn o gwbl.”

Hyd yn oed yn ei chyfnodau isaf, ni gollodd Doreen obaith. Er nad oedd hi’n deall pam bod Duw yn ei thywys hi drwy’r dyffryn tywyll yma roedd hi’n gwybod ei fod dal yn ei charu ac yn addo bod gyda hi.

“Ar adegau rydw i wedi teimlo ei bresenoldeb mor agos, faswn i wedi gallu rhoi fy llaw allan a’i gyffwrdd.”

Roedd Salm tri-deg-pedwar hefyd yn gysur mawr i Doreen a David, yn arbennig y geiriau yma, ‘Dyma un isel a waeddodd, a’r Arglwydd yn ei glywed ac yn ei waredu o’i holl gyfyngderau’.

“Rydw i wedi gwaeddu droeon,” meddai Doreen, “ac mae Duw wedi fy nghlywed a’m helpu bob tro.”

Mae Doreen yn cyfaddef iddi beidio ag ystyried yn iawn beth oedd yn digwydd iddi nes iddi sylwi ar sgil effaith arall.

“Roedd hi ond pan gollais i fy ngwallt cyn Dolig pan sylweddolais i go iawn bod canser arna’i.”

“Gorfod codi yn y bore a’i weld ar y gobennydd. Gorfod glanhau’r brws ar ôl ei ddefnyddio unwaith am ei fod mor llawn gwallt. Roeddwn yn fy nagrau yn aml – yr unig ran o’r salwch wnaeth i mi grio.”

Mae Doreen a David wedi bod yn Gristnogion ers blynyddoedd, ond mae’r profiad yma wedi eu tynnu’n agosach at ei gilydd – ac at Dduw.

“Rydw i mor ddiolchgar am David. Mae o wedi gweddïo gyda fi, wedi dal fy llaw wrth i mi wylo ac wedi bod yn gefnogaeth rhyfeddol.” “Ac rwyt ti wedi gorfod dioddef fy nghoginio,” meddai David.

Mae Doreen bellach wedi gorffen ei chemotherapi ac yn dechrau teimlo’n well bob dydd. Mae hi hefyd yn edrych ymlaen at weld ei gwallt yn tyfu’n ôl. Mae hi wedi dysgu gwersi mawr trwy hyn i gyd.”

“Dw i wedi dysgu ymddiried yn yr Arglwydd llawer mwy yn y pethau bob dydd. Lle o’r blaen faswn i wedi eu gwneud yn fy nerth fy hun, pan wyt ti ar cemo, rwyt ti’n methu gwneud dim yn dy nerth dy hun.”

“Dw i hefyd wedi dysgu i ddibynnu ar eraill yn lle bod yn hollol annibynnol.”

“Yn fwy na dim dw i di dysgu bod Iesu Grist yn fy adnabod ac yn fy neall am ei fod o wedi bod yn fy sgidiau. Mae o’n deall gwendid corfforol yn berffaith. Fe ddioddefodd boen llawer gwaeth na’r hyn rydyn ni’n ei wynebu. Fo sydd wedi bod yno yn fy ngalluogi. Rydw i i wedi dod i gredu ei addewid yn y Beibl, ‘Digon i ti fy ngras i; mewn gwendid y daw fy nerth i’w anterth’.

Y Bedd yn Wag

CYSTADLEUAETH

LLIWIO I BLANT

Mae’r llun ar y chwith yn dangos cyffro’r bobl gyntaf welodd y bedd wag ar Sul cynta’r Pasg. Roedden nhw newydd glywed gan yr angel bod Iesu’n fyw. Fe gei di ddarllen yr hanes yn Ioan 20:1-18.

Fe fydd gwobr o Feibl y Plant am y lliwio gorau. Tyrd â dy lun i mewn i Siop Lyfrau Roots, 46 Stryd Fawr erbyn Dydd Llun, Ebrill 12fed.

CHRISTIANITY EXPLORED

Cwrs anffurfiol ydy Dargan-fod Cristnogaeth, i bobl sydd eisiau archwilio Cristnogaeth, neu efallai atgoffa’u hunain o’r pethau sylfaenol. Mae’n edrych ar pwy oedd Iesu, beth oedd eu amcanion a beth mae’n ei olygu i’w ddilyn. Cewch chi mo’ch gofyn i wed-dïo, canu na darllen yn uchel, ac fe gewch chi ofyn unrhyw gwestiynau sydd ar eich med-dwl.

Os hoffech chi fod yn ran o gwrs wedi ei drefnu gan Eglwys Deuluol Cricieth, llenwch eich manylion ar y ffurflen isod a’i ddychwelyd i siop Roots, 46 Stryd Fawr neu postiwch i Ben Thomas Y Neptune, 22 Min-y-Môr. Mi wnewn ni gysylltu â chi am y cwrs nesaf.

Enw.....

Cyfeiriad.....

Ffon.....

Ebost.....